Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun, Ionawr ~~20fed~~ 19eg ~~2014~~ 2015 am ~~6.30~~ 6 o'r gloch yn Neuadd y Dref Dinbych.

Presennol: Cynghorwyr Rob Parkes, Raymond Bartley, Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin L Hughes, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood, Catherine Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Colin Hughes a Shereen Devine.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod arbennig ac eglurodd bwrpas y cyfarfod, hynny yw trafod cyllideb y cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ddod.

173. Datganiad Diddordeb Personol. Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Roy Tickle - unrhyw fater ynglŷn â Neuadd y Dref Dinbych.
(2) Cyng. Gaynor Wood - unrhyw fater ynglŷn â Neuadd y Dref Dinbych.

174. Cyllideb 2015 / 2016. Cyfeiriodd y cadeirydd at y dogfennau a ddosbarthwyd ar gyfer trafod a gosod cyllideb gwariant y cyngor tref ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015 / 2016.
Ar gais y cadeirydd eglurodd clerc y dref pwrpas pob un o'r dogfennau a dderbyniwyd.
Atgoffwyd y cyfarfod o'r penderfyniad a basiwyd gan y cyngor ar Dachwedd 24ain 2014 ynglŷn â chyllideb 2015 /2016, sef "fod toriad o 7.5% ar draws y bwrdd, i godi'r archebiant £1 ac i dynnu i lawr ychydig o arian o gronfa arian wrth gefn y cyngor".
Tra'n cyfeirio at y dogfennau a baratowyd ac yn arbennig at adroddiad cyfrinachol clerc y dref a baratowyd ar gyfer cyfarfod y cyngor ar Ragfyr 15fed 2014, a dderbyniwyd gan y cyngor yn y cyfarfod hwnnw, aeth y cyfarfod ymlaen i archwilio a thrafod pob pennawd oedd yn gynwysedig o fewn y gyllideb ac i osod ffigwr ar gyfer pob un.
Cafwyd cryn drafodaeth ar nifer o'r penawdau pan fynegwyd gwahanol sylwadau. Yn ystod y drafodaeth o dan bennawd Neuadd y Dref, gan eu bod wedi datgan diddordeb personol yn gynharach yn y cyfarfod, gadawodd y Cyng Roy Tickle a Gaynor Wood y siambr.

Er mwyn cyflwyno cyllideb oedd yn gyraeddadwy, cytunwyd yn ychwanegol i'r cytundebau a gyrhaeddwyd ar y gwahanol benawdau, i gymeradwyo'r canlynol:

- Clerc y dref (yn wirfoddol) i leihau ei oriau gwaith o 33 i 30 yr wythnos gydag effaith o Ebrill 1af 2015 (arbediad o tua £2,400 y flwyddyn)
- Gweithgor Goleuadau Nadolig i edrych ar ffyrdd i leihau costau goleuadau Nadolig tra'n cadw'r effaith trwodd a thro, e.e. costau llogi ac adleoliad rhai o'r goleuadau ac ati.
- I dorri allan yr arddangosfa basgedi crog yn y dref a'r torri glaswellt ac ati yn Ninbych Isaf (arbediad o tua £5,980 y flwyddyn)
- I ddarparu ariannu ychwanegol o £17,000 i ddiogelu dyfodol Neuadd y Dref Dinbych.

Penderfynwyd (yn unfrydol) b**od (1) lwfans y Maer ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2015 / 2016 yn parhau yn y swm o £1,300 a (2) lwfans y Dirprwy Faer ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2015 / 2016 hefyd yn parhau yn y swm o £200.**

Yn y diwedd daeth cyfanswm y penawdau i £195,400. Roedd y ffigwr yma yn cymharu â ffigwr o £188,680 ar gyfer cyllideb 2014 / 2015, sef cynnydd o £6,720 neu 3.56%.

Penderfynwyd (yn unfrydol) **cymeradwyo cyllideb gwariant o £195,400 ar gyfer blwyddyn ariannol 2015 / 2016.** Cytunwyd y byddai'n rhaid i'r cyngor fod yn dra phwyllog os oedd y gwariant i ddod o fewn y gyllideb a glustnodwyd.

175. Archebiant 2015 / 2016. Yn dilyn ymlaen o'r trafodaethau ar y gyllideb, trafodwyd y mater o osod ffigwr archebiant i gyfarfod anghenion gwariant y cyngor ac edrychwyd ar y gwahanol opsiynau. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **codi'r ffigwr archebiant o £56 i £57 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015 / 2016,** cynnydd o 1.79% neu 2c yr wythnos. Bydd y ffigwr archebiant newydd yn cynhyrchu incwm o **£188,499** fyddai'n golygu tynnu i lawr £6,901 o arian wrth gefn y cyngor. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **fod y gweddill yn y swm o £6,901 yn cael ei dynnu i lawr o arian wrth gefn y cyngor.**

Gofynnod y Cyng. Raymond Bartley am iddo gael ei gofnodi fod y cyfarfod yn diolch i glerc y dref am yr holl waith called yn paratoi'r wybodaeth ar gyfer y cyfarfod - cytunwyd (yn unfrydol) a hyn.

Am nad oedd mwy i drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.18 o'r gloch.

Arwyddwyd: .....(Cadeirydd)

Dyddiad: .....